

Adolygiad GDD GwE / Cwestiynau Monitro:

Mae'r cwestiynau /elfennau ymholi canlynol yn becyn cymorth / cyfarwyddyd i'w gweithredu yn ôl yr angen gan yr YCG yn ystod ymweliadau monitro ysgolion ar draws y rhanbarth a'i gofnodi ar G6. Nod y cwestiynau yw casglu tystiolaeth ychwanegol o fewn cyd-destun yr agenda gwella ysgolion a llesiant a'r cyd-destun GAD cenedlaethol / rhanbarthol. Ni ddylid ei ddefnyddio fel canllaw ticio bocs yn ystod yr ymweliadau, fodd bynnag bydd angen mwy o dystiolaeth o atebolrwydd os yw grŵp teulu PYD yr ysgol yn 4/5 a bod % uchel o ddyraniad grant PYD i'r ysgol.

Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd:

- C. Eglurwch eich data i mi. Sut y mae disgyblion PYD yn perfformio ar ddiwedd pob cyfnod allweddol? Beth yw effaith cyrhaeddiad isel blaenorol ar ddeilliannau yn y dyfodol?
- C. Beth yw effaith eich strategaeth GDD gyfredol? A oes strategaeth ysgol gyfan ar waith?
- C. Sut ydych chi'n targedu cyllid GDD?
- C. Eglurwch eich system olrhain/tracio dysgwyr PYD. Pa system sydd gennych chi ar waith? Sut ydych chi'n gosod targedau?
- C. All staff gael gafael ar ddata dysgwyr PYD?
- C. Beth yw rôl rheolwyr canol o ran gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr PYD?
- C. Beth yw rôl llywodraethwyr o ran gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr PYD? Sut maen nhw'n sicrhau atebolrwydd?
- C. Sut ydych chi'n arfarnu effeithiolrwydd eich strategaeth GDD?
- C. Sut y mae arweinyddiaeth yn sicrhau monitro effeithiol, SA mewnol ac effaith y strategaeth GDD?

Disgyblion a Theuluoedd:

- C. I ba raddau y grymusir teuluoedd disgyblion PYD i fod yn weithredol yn nysgu eu plant? Beth yw'r rhwystrau? (Peidiwch gwneud rhagdybiaethau)
- C. Beth yw nodweddion eich dysgwyr PYD?
- C. Beth yw rôl dysgwyr PYD ym mywyd ehangach yr ysgol? Sut y sicrheir bod ganddynt lais?
- C. Beth yw'r rhwystrau sy'n wynebu eich dysgwyr PYD? Ac yn yr ysgol?
- C. Datblygiad Iaith Cynnar / Sgiliau Llafaredd. Pa effaith gaiff hyn ar gynnydd disgyblion?
- C. I ba raddau y mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau/staff ychwanegol i ymgysylltu â theuluoedd? Beth yw effaith hyn?

Darpariaeth Gwricwlaidd:

- C. Sut y mae'r GDD yn cefnogi disgyblion sydd yn y 'canol llonydd' a'r rheiny sy'n fwy abl a thalentog?
- C. Eglurwch weledigaeth yr ysgol i mi. A yw hi'n cynnwys y rhai mwyaf bregus. A yw hi'n weledigaeth ar y cyd? A yw pawb yn ei deall hi?
- C. Beth sy'n gweithio'n dda/ddim yn gweithio'n dda o ran eich strategaeth GDD?
- C. I ba raddau y mae'r GDD yn galluogi dull gweithredu personol?
- C. Beth yw nodweddion/priodoleddau disgyblion nad ydynt yn tangyflawni? Meddyliwch y tu hwnt i labeli. Sut y mae mapiau darpariaeth/archwiliadau yn sicrhau nad oes dyblygiad?
- C. Beth yw graddau'r gwariant GDD ar staffio?
- C. Beth yw graddau'r gwariant GDD ar Ymyrraeth Iechyd a Llesiant?

C. Rhowch drosolwg o'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth ychwanegol a gynigir i ddisgyblion PYD
C. I ba raddau y mae'r strategaeth GDD yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar? (er enghraifft, Blynyddoedd Cynnar / CA3/CA4?)

Dysgu ac Addysgu:

C. Sut y rhennir gwybodaeth am ddysgwyr PYD â chyfnodau allweddol a grwpiau blwyddyn? Sut y rhennir gwybodaeth am ddysgwyr bregus â staff newydd a staff cymorth?

C. A yw disgyblion yn gwneud cynnydd priodol er mwyn cyflawni yn dda ar ddiwedd eu cyfnod allweddol - ble mae'r problemau?

C. I ba raddau y mae athrawon / staff cymorth yn teimlo'n gyfrifol am ddeilliannau dysgwyr PYD?

C. A ydych chi'n grwpio yn ôl gallu? Os felly, ym mha grwpiau y mae dysgwyr PYD? Pam? Pwy sy'n addysgu'r grwpiau gallu is? A yw disgyblion yn gwybod beth sydd angen iddyn nhw wneud i symud i grwp gwahanol?

C. Pa mor aml y tynnir disgyblion PYD allan o'r dosbarth? O beth, a pham? Gyda phwy maen nhw'n gweithio? Eglurwch y broses ar gyfer cynnwys disgybl mewn ymyrraeth y tu allan i'r dosbarth.

C. Beth yw effaith marcio ac adborth ar gynnydd disgyblion?

C. Sut y mae'r ysgol yn gwneud y defnydd gorau o Gymorthyddion Dysgu? Beth yw effaith cymorth ac ymyrraeth gan Gymhorthyddion Dysgu?

C I ba raddau y datblygir strategaethau metawybyddol yn y dosbarth?